# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Rhagfyr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 312(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## Cwestiwn Brys

(30 munud)

Gofyn i'r Prif Weinidog

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno cyfyngiadau pellach i ymateb i'r pandemig COVID-19?

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am golli swyddi yn Rhys Davies Logistics yn Ffynnon Taf o ganlyniad i roi'r cwmni yn nwylo gweinyddwyr?

Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â phwysau ar y GIG dros y gaeaf, ar wasanaethau ac amseroedd aros am ddiagnosis a thriniaeth?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cadernid Meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach

(60 munud)

**NDM7518** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadernid Meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Hydref 2020.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 2 Rhagfyr 2020.

## 6 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar effaith y pandemig ar y Gymraeg

(30 munud)

**NDM7519** Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Effaith argyfwng COVID-19 ar y Gymraeg, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2020.

## 7 Dadl Plaid Cymru – Prydau ysgol am ddim

(60 munud)

**NDM7521** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ar unwaith i sicrhau bod unrhyw blentyn mewn teulu sy'n derbyn credyd cynhwysol neu fudd-dal cyfatebol ac unrhyw blentyn mewn teulu nad yw cyllid cyhoeddus ar gael iddynt, yn gymwys, fel y cam cyntaf tuag at sicrhau bod prydau bwyd maethlon yn cael eu darparu am ddim i bob plentyn oed ysgol yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Rebecca Evans (Gŵyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn croesawu bod Llywodraeth Cymru:

a) wedi darparu dros £50 miliwn o gyllid ychwanegol i sicrhau bod y ddarpariaeth o brydau ysgol am ddim yn parhau yn ystod y pandemig ac mai dyma'r llywodraeth gyntaf yn y DU i wneud darpariaeth o'r fath yn ystod gwyliau ysgol;

b) wedi darparu cyllid ychwanegol i sicrhau bod plant sy’n hunanynysu neu’n gwarchod eu hunain yn parhau i dderbyn darpariaeth prydau ysgol am ddim pan nad oes modd iddyn nhw fynd i’r ysgol;

c) yn darparu cyllid o £19.50 yr wythnos i deuluoedd sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sef y ddarpariaeth fwyaf hael yn y DU;

d) wedi sicrhau mai Cymru yw’r unig wlad yn y DU o hyd i gael brecwast am ddim i bawb mewn cynllun i ysgolion cynradd;

e) wedi cael cydnabyddiaeth gan y Sefydliad Polisi Addysg am lwyddo i sicrhau bod teuluoedd sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y pandemig wedi cael mynediad at gymorth priodol ac amserol;

f) wedi ymrwymo i adolygu’r trothwy incwm ar gyfer cael prydau ysgol am ddim pan fydd data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gael fis Ebrill 2021.

Y Sefydliad Polisi Addysg (Saesneg yn unig)

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru.

2. Yn cydnabod y caledi ariannol y mae teuluoedd wedi'i wynebu ledled Cymru o ganlyniad i bandemig y coronafeirws a'r heriau y mae hyn wedi'u hachosi i rieni a gwarcheidwaid, a'i effaith ar y galw am brydau ysgol am ddim.

3. Yn croesawu'r rôl sydd gan brydau ysgol am ddim o ran gwella iechyd a maeth.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim er mwyn ymestyn y ddarpariaeth i:

a) dysgwyr mewn addysg bellach; a

b) teuluoedd heb incwm ac nad ydynt yn gallu hawlio arian cyhoeddus ar unwaith.

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

(5 munud)

**NDM7528** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheolau Sefydlog 12.20(i), 12.22(i), 29.4 a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NDM7529 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 16 Rhagfyr 2020.

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Datgelu Gwybodaeth)

(15 munud)

**NDM7529** Jeremy Miles (Castell-nedd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Masnach (Datgelu Gwybodaeth) i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Masnach (Datgelu Gwybodaeth) (Saesneg yn unig)

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer - Gohiriwyd o 9 Rhagfyr

(30 munud)

**NDM7504** **Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)**

Pwysigrwydd cefnogwyr mewn digwyddiadau chwaraeon ar gyfer gwead cymdeithasol ein cymunedau.

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7517** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Achub ein cerfluniau: pwysigrwydd parhaus cofebau a henebion hanesyddol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2021

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 09/12/2020 i'w hateb ar 16/12/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

1 OQ56037

**(e)**

Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn ystod tymor y Senedd hon o sut mae'r Cod ar yr Arfer Orau wrth Ddefnyddio Maglau i Reoli Cadnoid wedi gweithio?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OQ56056

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lifogydd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OQ56048

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud ynglŷn â'r cynnydd yn nifer y cŵn bach a gaiff eu gwerthu yn ystod pandemig COVID-19?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

4 OQ56057

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd yn Nhorfaen ar gyfer gweddill tymor y Senedd hon?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ56041

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith COVID-19 ar les anifeiliaid yng Nghymru?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

6 OQ56054

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith COVID-19 ar yr economi wledig hyd yma?

7 **Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*
OQ56031

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar gyfer adferiad gwyrdd?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

8 OQ56061

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon mewn lleoliadau gwledig anghysbell yn Islwyn?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

9 OQ56058

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal halogi tir yn Nwyrain De Cymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

10 OQ56043

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith tymhorau byrrach a phrisiau trwydded uwch ar bysgotwyr rhwydi sân lleol?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ56046

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gwympo coed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen?

**Hefin David** *Caerffili*

12 OQ56063

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth yn dilyn llifogydd yng Nghaerffili?

# Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Sian Gwenllian** *Arfon*

1 OQ56042

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoleiddio gosodiadau gwyliau tymor byr?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

2 OQ56055

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i gyn-filwyr yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

3 OQ56033

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu'r fframwaith datblygu cenedlaethol yng nghanolbarth Cymru?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

4 OQ56053

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae o ran gwella ymgysylltiad y cyhoedd â gwleidyddiaeth leol?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ56049

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi atebion tai arloesol yng Nghymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

6 OQ56025

**(e)**

Beth yw blaenoriaethau tai Llywodraeth Cymru ar gyfer Preseli Sir Benfro?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

7 OQ56028

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyflenwad o gartrefi newydd yng Nghymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

8 OQ56050

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl awdurdodau lleol o ran ymateb i COVID-19 yng Nghymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

9 OQ56062

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy ar draws cymunedau Islwyn?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

10 OQ56029

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi adeiladwyr lleol bach a chanolig i fod yn rhan o'r cynnydd yn nifer y tai a gaiff eu hadeiladu yng Nghymru?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ56045

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adeiladu tai yn Nwyrain De Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

12 OQ56036

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ganol trefi yn ystod pandemig y coronafeirws?